Hawdd ei Ddeall

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

# Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol

Fersiwn Hawdd ei Ddeall yw hwn o 'Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol'

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

Ebrill 2017




# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai na fedrwch chi ddarllen a deall y ddogfen hon heb help. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Efallai bydd rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain wedi cael eu hysgrifennu mewn **gwyrdd trwm** a dywedir beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.

Os bydd unrhyw un o'r geiriau yn cael eu defnyddio eto yn y llyfryn byddan nhw'n cael eu dangos mewn ysgrifennu gwyrdd cyffredin. Os gwelwch chi eiriau mewn ysgrifennu gwyrdd cyffredin, gallwch edrych beth maen nhw'n feddwl mewn **Geiriau anodd** ar dudalen 21.

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Pan fydd y ddogfen yn dweud 'ni', mae hyn yn meddwl Gofal Cymdeithasol Cymru.

I gael mwy o gopïau o'r fersiwn Hawdd ei Ddeall hwn, cysylltwch â:

Gofal Cymdeithasol Cymru, Tŷ South Gate, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW



Ffôn: 0300 30 33 444

E-bost: codau@gofalcymdeithasol.cymru

Gwefan: www.gofalcymdeithasol.cymru

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn Hawdd ei Deall gan Anabledd Dysgu Cymru gan ddefnyddio Photosymbols.

# Cynnwys


Tudalen

**Cyflwyniad ....................................................................................4**

- Beth yw Gofal Cymdeithasol Cymru?....................................................4
- Beth yw'r Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol?....................6
- Pwy sydd angen gwybod am y Côd Ymarfer?........................................8

Côd 1 **Bydd gweithiwr gofal cymdeithasol yn eich helpu gyda'ch hawliau.
Fe fyddan nhw'n gwrando ar yr hyn rydych chi'n gofyn amdano...........................................................................9**

Côd 2 **Bydd gweithiwr gofal cymdeithasol yn gweithio i'ch cael i ymddiried ynddo a chael eich parch.........................................11**

Côd 3 **Bydd gweithiwr gofal cymdeithasol yn eich helpu i roi eich barn a bod yn ddiogel ...........................................................13**

Côd 4 **Bydd gweithiwr gofal cymdeithasol yn parchu eich hawliau ac yn eich helpu i fod yn ddiogel .............................................15**

Côd 5 **Mae pawb yn ymddiried mewn gweithiwr gofal cymdeithasol i wneud gwaith da...........................................16**

Côd 6 **Bydd gweithiwr gofal cymdeithasol yn gwneud gwaith da ac yn cael hyfforddiant da ...........................................................18**

Côd 7 **Bydd gweithiwr gofal cymdeithasol sydd yn bennaeth yn dweud wrth staff am y codau hyn.............................................19**

**Geiriau anodd ..........................................................................21**

## Cyflwyniad

# Beth yw Gofal Cymdeithasol Cymru?

Rydyn ni’n gweithio ar ran Llywodraeth Cymru. Rydyn ni’n cefnogi **gweithwyr gofal cymdeithasol** i wneud eu gwaith yn dda.

Mae **gweithwyr gofal cymdeithasol** yn cefnogi pobl sydd angen **gofal cymdeithasol**. Maen nhw’n cynnwys:



- gweithwyr cymdeithasol



- gweithwyr cymdeithasol sy’n fyfyrwyr



- gweithwyr mewn cartref plant



- penaethiaid cartrefi gofal ar gyfer oedolion
- penaethiaid pobl sy’n cefnogi pobl yn eu cartrefi.



Bydd pobl yn cael **gofal cymdeithasol** pan fyddan nhw’n cael cefnogaeth i fyw yn eu cartrefi. Mae gofal cymdeithasol hefyd yn cynnwys canolfannau dydd a gweithwyr gofal.

Ein gwaith ni yw:



- cadw rhestr o rai o'r bobl sy'n gweithio mewn gofal cymdeithasol




- dweud wrth weithwyr gofal cymdeithasol beth sy'n bwysig yn eu gwaith



- gwneud yn siŵr bod hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol yn dda



- gwneud yn siŵr bod gweithwyr mewn gofal cymdeithasol yn gwybod pa hyfforddiant sydd ar gael iddyn nhw.  Eu helpu i gael yr hyfforddiant fydd yn eu gwneud yn weithwyr da




- eu helpu i wneud yn siŵr bod gweithwyr gofal cymdeithasol yn gwybod sut i wneud eu gwaith yn dda.

# Beth yw'r Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol?




Mae'r **Côd Ymarfer** yn dweud wrth weithwyr gofal cymdeithasol sut y mae'n rhaid iddyn nhw ymddwyn yn eu gwaith.



Mae **Côd Ymarfer** yn ffordd y mae'n rhaid i bobl ymddwyn.

Mae **côd** yn air arall am reol.



Mae pawb sydd ar ein rhestr o weithwyr gofal cymdeithasol yn cytuno i gadw'r Côd Ymarfer.

Os nad yw gweithwyr yn gwneud y pethau hyn, maen nhw'n atebol i:



- y person sy'n eu cyflogi

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

- neu ni – Gofal Cymdeithasol Cymru. Fe allwn eu tynnu oddi ar restr gweithwyr gofal cymdeithasol.




Cafodd y Côd Ymarfer diwethaf ei ysgrifennu yn 2002. Roedd yn amser ei ddiweddaru.



Fe ofynnon ni i bobl sy'n gweithio mewn gofal cymdeithasol i'n helpu i ysgrifennu'r Côd Ymarfer newydd.




Ym mis Ebrill 2017, newidiodd Cyngor Gofal Cymru ei enw i Gofal Cymdeithasol Cymru.

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Fe newidion ni ein logo a'n lliwiau.



Ond wnaethon ni ddim newid y Côd Ymarfer.

## Pwy sydd angen gwybod am y Côd Ymarfer?



Mae'r Côd Ymarfer yn dweud wrth bawb sut mae'n rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol weithio ac ymddwyn. Y bobl sydd angen gwybod am y Côd Ymarfer yw:



- **unigolion**

> Mae **unigolyn** yn berson sydd angen cefnogaeth gweithwyr gofal cymdeithasol.



- gweithwyr gofal cymdeithasol



- penaethiaid
- pobl sy'n cyflogi gweithwyr gofal cymdeithasol



- gofalwyr



- y cyhoedd.

## Côd 1

# Bydd gweithiwr gofal cymdeithasol yn eich helpu gyda'ch hawliau.

# Fe fyddan nhw'n gwrando ar yr hyn rydych chi'n gofyn amdano

Mae hyn yn meddwl y byddan nhw'n:



- gweithio gyda chi i'ch helpu i fyw eich bywyd yn y ffordd y buasech chi'n hoffi gwneud. Fe fyddan nhw'n eich cynnwys chi ym mhob penderfyniad ynglŷn â'ch bywyd



- parchu'r hyn rydych chi'n gofyn amdano. Fe fyddan nhw'n gwrando arnoch chi a'ch gofalwyr



- cefnogi eich hawl i wneud yr holl benderfyniadau y gallwch ynglŷn â'ch bywyd




- cadw pethau mor gyfrinachol ag sy'n bosibl. Fe fyddan nhw'n egluro os oes rhaid iddyn nhw rannu pethau â phobl eraill




- gwneud yn siŵr eich bod yn cael yr un cyfleoedd â phobl eraill

- gwneud yn siŵr na fyddan nhw'n eich trin chi na'ch gofalwyr yn annheg oherwydd:




- beth rydych chi'n ei gredu




- beth sydd orau gennych



- eich diwylliant



- yr iaith rydych chi'n ei siarad



- eich ffordd o fyw.

## Côd 2

# Bydd gweithiwr gofal cymdeithasol yn gweithio i'ch cael i ymddiried ynddo a chael eich parch



Bydd hyn yn meddwl y byddan nhw'n:

- bod yn onest gyda chi



- ysgrifennu atoch a siarad â chi mewn ffordd y gallwch chi ddeall



- gwneud yn siŵr eich bod chi a'ch gofalwyr yn cael dweud pethau yn y ffordd rydych chi'n dewis. Ac mewn iaith sy'n hawdd i chi ei deall




- cadw pethau cyfrinachol yn gyfrinachol. Fe fyddan nhw'n egluro os bydd rhaid iddyn nhw rannu rhai pethau â phobl eraill



- gwneud beth maen nhw'n dweud y byddan nhw'n ei wneud, ar yr adeg maen nhw'n dweud y byddan nhw'n ei wneud



- ambell dro efallai y byddan nhw'n newid beth maen nhw wedi cytuno i'w wneud. Yna fe fyddan nhw'n egluro pam wrthych chi.



- dweud wrthych chi am unrhyw beth sy'n ei gwneud hi'n anodd iddyn nhw weithio gyda chi



- peidio â chymryd anrhegion ac arian oddi wrthych chi na'ch gofalwyr. Dydyn nhw ddim yn cael gwneud hynny.

Côd 3

## Bydd gweithiwr gofal cymdeithasol yn eich helpu i roi eich barn a bod yn ddiogel

Bydd hyn yn meddwl y byddan nhw'n:



- eich cefnogi i fod yn iach a theimlo'n dda ynglŷn â'ch bywyd



- cefnogi eich gofalwyr i fod yn iach a theimlo'n dda ynglŷn â'u bywyd



- cefnogi eich hawl i achub eich cam eich hun

- cefnogi hawl eich gofalwyr i achub eu cam eu hunain



- bod yn ofalus yn y gwaith a chadw eu hunain a chi yn ddiogel



- dweud os bydd rhywun yn cael ei **gam-drin**

Byddwch yn cael eich **cam-drin** os bydd rhywun yn eich brifo neu'n eich trin yn wael.

- dweud os byddwch yn cael eich trin mewn ffordd annheg neu ffordd sydd ddim yn ddiogel



- dweud os bydd unrhyw beth o'ch cwmpas ddim yn ddiogel



- dweud pan fydd staff yn gweithio mewn ffordd sydd ddim yn dda nac yn ddiogel



- eich cefnogi chi a'ch gofalwyr i gwyno

- cymryd gofal i beidio â chymryd dewisiadau oddi arnoch chi.

# Côd 4

# Bydd gweithiwr gofal cymdeithasol yn parchu eich hawliau ac yn eich helpu i fod yn ddiogel

Bydd hyn yn meddwl y byddan nhw'n:



- gwybod bod gennych chi'r hawl i fentro



- rhoi cefnogaeth i chi gadw'n ddiogel



- edrych beth allai ddigwydd os byddwch chi'n gwneud rhywbeth a allai fod yn beryglus



- rhoi cefnogaeth i chi i gadw'n ddiogel os byddwch chi'n gwneud rhywbeth a allai fod yn beryglus



- ysgrifennu hyn i gyd i lawr. Ei roi i aelodau eraill o staff sydd angen gwybod am hyn.

## Côd 5

# Mae pawb yn ymddiried mewn gweithiwr gofal cymdeithasol i wneud gwaith da

Bydd hyn yn meddwl **na** fyddan nhw'n:



- eich brifo na'ch cam-drin chi, eich gofalwyr na gweithwyr eraill



- eich trin chi, eich gofalwyr na gweithwyr eraill mewn ffordd annheg



- defnyddio pethau maen nhw'n wybod amdanoch chi na'ch gofalwyr mewn ffordd wael



- ymddwyn gyda chi na'ch gofalwyr mewn ffordd sydd ddim yn dda i chi



- gadael i bobl eraill eich trin mewn ffordd annheg



- eich rhoi chi na phobl eraill mewn perygl o gael eich brifo



- ymddwyn yn wael, yn y gwaith na’r tu allan i’r gwaith.

# Côd 6

# Bydd gweithiwr gofal cymdeithasol yn gwneud gwaith da ac yn cael hyfforddiant da

Bydd hyn yn meddwl y byddan nhw'n:




- cadw at reolau eu gwaith a rheolau'r gyfraith



- ysgrifennu beth sy'n digwydd a beth sy'n cael ei ddweud wrthyn nhw



- bod yn onest pan fydd pethau'n mynd o'i le



- gofyn am help pan fydd ei angen arnyn nhw

- gweithio'n dda gyda phobl eraill



- mynd am hyfforddiant i gadw gyda'r oes




- helpu i ateb unrhyw gwestiynau os bydd rhywbeth wedi mynd o'i le.

# Côd 7

# Bydd gweithiwr gofal cymdeithasol sydd yn bennaeth yn dweud wrth staff am y codau hyn

Bydd hyn yn meddwl y byddan nhw'n:




- gwneud yn siŵr bod staff yn gwybod sut i ddefnyddio'r codau hyn



- rhoi amser i dimau staff siarad ynglŷn â defnyddio'r codau hyn



- rhoi hyfforddiant i staff i'w helpu i wneud eu gwaith yn well



- cyfarfod ag un aelod o staff ar y tro i feddwl am eu gwaith



- gwrando ar yr hyn mae pobl yn ei ddweud am staff



- dweud wrthyn nhw pan fyddan nhw'n gwneud gwaith da



- ei setlo'n syth pan fyddan nhw'n gwneud gwaith gwael.

# Geiriau anodd

## Cam-drin

Byddwch yn cael eich cam-drin os bydd rhywun yn eich brifo neu’n eich trin yn wael.

## Côd

Mae côd yn air arall am reol.

## Côd Ymarfer

Mae Côd Ymarfer yn ffordd y mae’n rhaid i bobl ymddwyn.

## Gofal cymdeithasol

Bydd pobl yn cael gofal cymdeithasol pan fyddan nhw’n cael cefnogaeth i fyw yn eu cartrefi. Mae gofal cymdeithasol hefyd yn cynnwys canolfannau dydd a gweithwyr gofal cymdeithasol.

## Gweithiwr gofal cymdeithasol

Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn cefnogi pobl sydd angen gofal cymdeithasol. Maen nhw’n cynnwys:

- gweithwyr cymdeithasol
- gweithwyr cymdeithasol sy’n fyfyrwyr
- gweithwyr mewn cartref plant
- penaethiaid cartrefi gofal ar gyfer oedolion
- penaethiaid pobl sy’n cefnogi pobl yn eu cartrefi.

## Unigolyn

Mae unigolyn yn berson sydd angen cefnogaeth gweithwyr gofal cymdeithasol.